

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Brenhinol Gwent

Ardal: Gwasanaethau Mamolaeth

Dyddiadau arolygu: 2 – 4 Medi 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr arwyddion yn yr ysbyty yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn glir i'r holl gleifion ac ymwelwyr.	4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion	Mae'r arwyddion ar gyfer y Gwasanaethau Mamolaeth wedi cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn hawdd i'w darllen i'r menywod a'u teuluoedd ac ymwelwyr, a gwnaed newidiadau.	Rheolwr Gwella Gwasanaethau	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod	4.2 Gwybodaeth	Mae Hysbysfyrddau yn cael eu defnyddio ac maent wedi cael eu	Uwch-reolwyr	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn hawdd ym mhob rhan o'r uned.	ar gyfer Cleifion	diweddarau. Maent bellach yn cynnwys gwybodaeth am fwydo ar y fron, gan gynnwys gwybodaeth am fanteision cyswllt croen â chroen, cyngor ar gysgu'n ddiogel, cyngor ar hybu iechyd o ran llesiant corfforol ac emosiynol a chymorth rhoi'r gorau i smygu. Mae pob bydwraig wedi cael hyfforddiant hybu iechyd ac maent yn rhoi cyngor i fenywod yn rheolaidd.	Bydwreigiaeth	
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gwybodaeth am y staff yn cael ei harddangos i'r cleifion, gan gynnwys ar y ward esgor.	4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion	Mae byrddau yn arddangos enwau'r aelodau o staff sydd ar ddyletswydd ar y ward cynenedigol a'r ward ôl-enedigol. Ystyriwyd rhoi hysbysfwrdd yn yr uned genedigaeth obstetrig (MDU) a thrafodwyd hyn â'r tîm. Mae adolygiad wedi cadarnhau bod menywod ac aelodau o'r teulu yn ymwybodol o'r prif gysylltiadau, a theimlwyd nad oedd angen hysbysfwrdd ychwanegol. Mae'r aelodau o staff yn cyflwyno eu hunain i'r menywod y maent yn gofalu amdanynt ac mae pob un ohonynt yn gwisgo bathodyn enw. Mae staff y theatrau wedi archebu capiau theatr a fydd yn arddangos eu henwau a'u rôl – yr 'Her	Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Capiau Theatr' genedlaethol. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan fenywod ynghylch adnabod staff.		
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y broses drosglwyddo yn cael ei hadolygu.	4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion	Mae'r broses drosglwyddo wedi cael ei hadolygu. Mae patrymau sifft staff meddygol wedi cael eu newid er mwyn sicrhau proses drosglwyddo ar y cyd.	Cyfarwyddwr Clinigol/Uwch-reolwr Bydwreigiaeth	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau y caiff gwybodaeth yn nodi sut y gall cleifion a theuluoedd/gofalwyr godi pryder am eu gofal ei harddangos yn glir a'i bod ar gael yn rhwydd	4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion	Mae taflenni 'Gweithio i Wella' ar gael ym mhob ardal glinigol. Ar adeg yr arolygiad, roedd taflenni eisoes ar gael yn yr ardaloedd clinigol a dangoswyd y taflenni i'r tîm.		Dim Camau Gweithredu i'w Cymryd
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn cael gwybod am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) sy'n cynnig gwasanaethau eirioli a chymorth.	4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion	Gofynnwyd am daflenni gan y CIC a chânt eu harddangos ar ôl eu derbyn.	Uwch-reolwr Bydwreigiaeth	Tachwedd 2019
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adborth cleifion yn cael ei gasglu'n rheolaidd i wella gwasanaethau.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn bod ganddo ddull cadarn o sicrhau adborth gan fenywod/teuluoedd, sy'n dylanwadu ar y gwaith o wella'r gwasanaeth.		Dim Camau Gweithredu i'w Cymryd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod amserlen glanhau domestig yr uned yn cael ei hadolygu er mwyn cynnal safonau uchel.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Caiff cydymffurfiaeth ei monitro yn fwy trylwyr er mwyn sicrhau bod amserleni glanhau yn gyfredol a bod safonau uchel yn cael eu cynnal.	Cyfarwyddwr yr Is-adran Cyfleusterau	Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod biniau storio gwastraff yn cyd-fynd â chanllawiau atal a rheoli heintiau a bod y staff yn cael gwybod sut i wahanu gwastraff yn briodol.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae biniau storio gwastraff priodol wedi'u darparu ac mae gwybodaeth wedi cael ei harddangos i hysbysu'r staff am y gweithdrefnau cywir ar gyfer gwahanu a gwaredu gwastraff.	Rheolwr Gwella Gwasanaethau/ Cyfarwyddwr yr Is-adran Cyfleusterau	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod yr ystafelloedd amlbwrpas yn yr uned yn cael eu trefnu i safonau uchel.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Cymerwyd camau ar unwaith i sicrhau bod yr ystafelloedd amlbwrpas yn cael eu trefnu. Atgoffwyd staff o bwysigrwydd cynnal hyn a chyflwynwyd gwiriadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.	Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod yr holl gyfarpar a chyflenwadau glanhau'n cael eu storio'n briodol ac yn ddiogel.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Cymerwyd camau ar unwaith i sicrhau bod yr holl gyfarpar a chyflenwadau glanhau'n cael eu storio'n briodol ac yn ddiogel. Atgoffwyd staff o bwysigrwydd hyn a chyflwynwyd trefniadau i fonitro	Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cydymffurfiaeth.		
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y drysau i'r ystafell feddyginiaeth/cofnodion yn cael eu cau'n ddiogel er mwyn cynnal diogelwch.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Atgoffwyd pob aelod o'r staff i sicrhau bod y drysau i'r ystafell feddyginiaeth/cofnodion yn cael eu cau'n ddiogel er mwyn cynnal diogelwch. Cafodd y pryder hwn ei unioni ar unwaith, ac mae'r cloeon a gafodd eu harchebu bellach wedi cael eu gosod.	Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod labeli dynodedig yn cael eu rhoi ar gyfarpar i ddangos ei fod wedi cael ei lanhau a'i fod yn barod i'w ddefnyddio.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae labeli dynodedig wedi cael eu harchebu. Mae pwysigrwydd hyn wedi cael ei raeadru i'r staff.	Rheolwr Gwella Gwasanaethau	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i adolygu eitemau annhafladwy er mwyn lleihau risgiau o heintiau, megis llenni ffabrig, pennau cawodydd a llenni cawodydd.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Cafwyd sgwrs â Thîm Atal a Rheoli Heintiau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, fel canlyniad uniongyrchol o'r argymhelliad hwn. Mae'r cyfraddau heintiau yn y gwasanaethau mamolaeth yn isel ac nid yw prosesau dadansoddiad o wraidd y broblem wedi nodi bod y cawodydd yn achosi risg. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod dyluniad pennau cawodydd tafladwy yn gymhleth a'u bod yn ddrud ac yn	Pennaeth Bydwreigiaeth/ Nyrs Ymgynghorol Atal a Rheoli Heintiau	Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		wastraffus. Caiff darparu llenni tafladwy ei ystyried.		
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod pob eitem dafladwy yn cael ei gwaredu ar unwaith ar ôl ei defnyddio, gan gynnwys strapiau CTG.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Atgoffwyd y staff o bwysigrwydd gwaredu eitemau tafladwy ar unwaith.	Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod trefniadau digonol ar waith i sicrhau y caiff yr uned ei glanhau yn drylwyr ac yn effeithiol.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Atgyfnerthwyd dull ar y cyd o weithredu rhwng y Tîm Arwain Is-adrannol a'r Is-adran Cyfleusterau er mwyn sicrhau bod safonau glendid yn cael eu cynnal a'u monitro'n gyson drwy archwiliadau glanhau.	Cyfarwyddwr yr Is-adran Cyfleusterau/ Cyfarwyddwr yr Is-adran Gwasanaethau Teulu a Therapi	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod opsiynau bwyd ar gael i'r cleifion drwy gydol y dydd a'r nos.	2.5 Maeth a Hydradu	Mae argaeledd maeth i fenywod dros gyfnod o 24 awr yn cael ei adolygu, gan gynnwys byrbrydau (yn enwedig y tu allan i oriau).	Cyfarwyddwr yr Is-adran Cyfleusterau	Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd Sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol ac yn ddiogel bob amser.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Mae cloeon a archebwyd yn flaenorol wedi cael eu gosod, ac atgoffwyd staff o bwysigrwydd storio'n briodol ac yn ddiogel.	Uwch-reolwyr Bydwreigiaeth	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff	3.1 Gofal Diogel a	Mae Gwasanaethau Mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi'u	Bydwragedd	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cymorth bwydo ar y fron ei adolygu a bod gwelededd yn cynyddu ym mhob rhan o'r uned.	Chlinigol Effeithiol	hachredu gan y fenter Cyfeillgar i Fabanod. Er mwyn cydnabod pwysigrwydd bwydo ar y fron, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cefnogi dwy fydwraig glinigol i gwblhau cwrs dwy flynedd i fod yn ymgynghorwyr llaetha. Mae'r bydwragedd bellach yn hyrwyddwyr bwydo ar y fron, er mwyn sicrhau mwy o welededd a chymorth mewn ardaloedd clinigol. Mae hysbysfyrddau wedi cael eu diweddarau i ganolbwyntio ar negeseuon o ran bwydo ar y fron a chyswllt croen â chroen. Bydd gwybodaeth am grwpiau cymorth a dysgu ar y cyd â mamau eraill am fwydo ar y fron yn cael ei chynnwys ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y gwasanaethau mamolaeth. Mae pob aelod o staff newydd yn cael copi o Gynllun Bwydo ar y Fron 5 Mlynedd Cymru Gyfan.	Ymgynghorol	
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion y cleifion yn dangos yr holl ofal a thriniaethau a ddarperir i'r cleifion a'u bod yn	3.4 Technoleg Llywodraethu Gwybodaeth a	Mae'r safonau ar gyfer cadw cofnodion a chofnodion meddygol wedi cael eu hatgyfnerthu â staff clinigol a chânt eu	Cyfarwyddwr yr Is-adran Gwasanaethau	Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cyd-fynd â safonau cadw cofnodion proffesiynol.	Chyfathrebu	monitro drwy archwiliadau.	Teulu a Therapi	
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod mwy o waith yn cael ei wneud i sicrhau y caiff cydymffurfiaeth ag archwiliadau ei chryfhau a'i chynnal gan gymryd camau rhagweithiol i ddysgu gwersi o ganfyddiadau.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae gan yr Is-adran seilwaith Llywodraethu Clinigol cadarn ac mae archwilio yn un o'r nodweddion allweddol. Er mwyn atgyfnerthu'r dull Is-adrannol o fonitro'r gwaith o roi canlyniadau a chanfyddiadau archwiliadau ar waith, sefydlwyd Grŵp Goruchwylio Llywodraethu newydd. Cynhelir hunanasesiad o'r grŵp ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.	Pennaeth Bydwreigiaeth	Mawrth 2020
Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod adolygiad o lefelau staffio meddygol newyddenedigol yn cael ei gynnal i sicrhau bod menywod yn cael eu rhyddhau yn amserol ac yn effeithiol.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Cynhelir adolygiad o lefelau Staffio Meddygol Newyddenedigol fel rhan o'r broses cynllunio gwaith trosglwyddo ar gyfer Dyfodol Clinigol. Os bydd problem, eir i'r afael ag unrhyw achos o anghenion yn datblygu a/neu heriau staffio meddygol presennol ar	Cyfarwyddwr Clinigol/ Cyfarwyddwr yr Is-adran	Mawrth 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		unwaith, er mwyn sicrhau diogelwch a gofal amserol.		

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Deb Jackson

Teitl swydd: Pennaeth Bydwreigiaeth

Dyddiad: 18/10/2019